Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

School of Pharmacy and Pharmaceutical Sciences
Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol

# Pasbort i Fferylliaeth

## Beth sydd rhaid i mi ei wneud i fod yn fferyllydd?

# Beth mae fferyllydd yn ei wneud?

Cyn i chi ddarganfod sut i ddod yn fferyllydd, efallai yr hoffech chi wybod beth mae fferyllydd yn ei wneud mewn gwirionedd! Yn syml:

**Mae fferyllwyr yn defnyddio eu gwybodaeth wyddonol arbenigol am feddyginiaethau ac iechyd i wella bywydau cleifion.**

**Maen nhw'n gwybod:**

- pa feddyginiaethau sydd orau ar gyfer gwahanol glefydau
- pa sgîl-effeithiau allai godi
- sut mae'n cyrff yn ymateb i wahanol feddyginiaethau
- sut mae'r meddyginiaethau hynny'n ymwneud â'i gilydd o fewn ein cyrff.

# Yn ymarferol, gall fferyllwyr wneud llawer iawn o bethau i wella iechyd a lles pobl.

Mae rhai fferyllwyr yn gweithio'n uniongyrchol gyda chleifion trwy gynnig cyngor a dosbarthu cyffuriau, yn ogystal â rhoi meddyginiaethau a brechiadau.

Mae rhai eraill yn gweithio mewn labordai ymchwil i ddarganfod cyffuriau a thriniaethau newydd ar gyfer pob math o glefydau. Mae rhai fferyllwyr yn ailddatblygu cyffuriau presennol i drin clefyd yn well neu ddod o hyd i ffyrdd newydd o roi cyffuriau i'n cyrff gan ddefnyddio technolegau fel nodwyddau mân, aerosolau, capsiwlau neu hyd yn oed nanoronynnau.

Hefyd, gall fferyllwyr weithio i'r cwmnïau fferyllol sy'n cynhyrchu ac yn dosbarthu amrywiaeth eang o feddyginiaethau neu mewn Llywodraeth yn helpu i roi cyngor ar ba feddyginiaethau sy'n ddiogel i gleifion eu defnyddio.

**Felly, os ydych chi wrth eich bodd â gwyddoniaeth a helpu pobl, gallai gyrfa ym maes fferylliaeth fod yn berffaith i chi!**



# A wyddoch chi?

- Mae'n rhaid i chi astudio **gradd Meistr bedair blynedd mewn Fferylliaeth (MPharm)** yn y brifysgol i ddod yn fferyllydd. Dyma lle'r enillwch chi wybodaeth wyddonol fanwl am feddyginiaethau a'r corff dynol a dysgu'r sgiliau y bydd eu hangen arnoch i drin cleifion.

- Ar ôl i chi gwblhau eich gradd MPharm, bydd angen i chi wneud blwyddyn o **brofiad gwaith â thâl** - o'r enw 'blwyddyn hyfforddiant sylfaenol' - cyn y gallwch sefyll prawf i gymhwyso fel fferyllydd.

- Mae llawer o fferyllwyr yn cynnal **ymgynghoriadau** â chleifion i wneud diagnosis o gyflyrau meddygol ac yn rhagnodi meddyginiaethau i'w trin – yn union fel meddyg. Mae rhai eraill yn gweithio yn y cefndir, gan helpu i ddod o hyd i **feddyginiaethau newydd neu wella rhai sy'n bodoli eisoes.**

- Mae llawer o wahanol opsiynau gyrfa **cyffrous** ar gael ar gyfer fferyllwyr cymwysedig.



# Blwyddyn 9

**Gwaith cartref:** Mae angen i fferyllydd gynllunio ymlaen llaw, cwblhau tasgau o fewn amserlen benodol, ac ymfalchïo yn ei waith. Felly, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cwblhau'ch gwaith cartref mewn pryd a'i wneud cystal â phosibl.

**Dewis eich TGAU:** Cofiwch y bydd y rhan fwyaf o ysgolion fferylliaeth am i chi gael graddau da mewn Gwyddoniaeth Dwyradd neu Gemeg a Bioleg Gradd Unigol. Mae Saesneg/Cymraeg yn bwysig hefyd ac, oherwydd bod rhifedd yn hanfodol i fyfyrwyr fferylliaeth, mae Mathemateg yn bwnc sy'n werth canolbwyntio arno.




**Hobïau a diddordebau:** Mae mwy i fywyd myfyriwr fferylliaeth na gweithio ac astudio drwy'r amser. Bydd y blynyddoedd nesaf yn heriol ar adegau, felly mae'n bwysig i chi ddod o hyd i bethau anacademaidd rydych chi'n eu mwynhau. Bydd yr amser y byddwch yn ei dreulio'n gwneud gweithgareddau hwyliog yn eich helpu i ymlacio ac adeiladu 'gwydnwch', sy'n golygu y gallwch chi fownsio'n ôl pan fydd pethau'n mynd o chwith. Mae angen i weithwyr fferyllol proffesiynol fod yn chwaraewyr tîm ac yn gyfathrebwyr rhagorol hefyd. Gall hobïau eich helpu i feithrin y sgiliau hanfodol

# Blwyddyn 10

**Meddyliwch:** Mae fferyllydd da yn myfyrio'n barhaus ar beth mae'n ei wneud. Mae hyn yn cynnwys meddwl beth aeth yn dda, beth allai fod wedi mynd yn well a beth mae wedi'i ddysgu. Mae hyn yn bwysig iawn i'w helpu i osgoi gwneud neu ailadrodd camgymeriadau a allai fod yn beryglus i'w gleifion.

**Rhowch gynnig ar fyfyrio gyda'ch teulu a'ch ffrindiau:** Dewiswch un peth rydych chi wedi'i wneud neu ei weld bob dydd, a'i drafod yn fanwl. Beth ddigwyddodd? Pam digwyddodd hynny? Beth ddylai fod wedi digwydd? Allai fod wedi digwydd mewn rhyw ffordd arall? Beth fyddech chi wedi'i wneud pe baech chi wedi bod yn rhan o'r sefyllfa?

**Chwiliwch am gyfleoedd:** Dechreuwch ofyn i bobl beth maen nhw'n ei wybod am yrfa yn y byd fferyllol, ond cofiwch efallai na fydd y wybodaeth gywir gan rai pobl sy'n ceisio eich helpu. Mae rôl fferyllydd wedi newid llawer dros y blynyddoedd diwethaf!



# Blwyddyn 11

## Paratoi ar gyfer eich cais i astudio fferylliaeth

**Dewiswch eich pynciau Safon Uwch yn ofalus:** Er y bydd y rhan fwyaf o brifysgolion am i chi gael o leiaf tair Safon Uwch i astudio Fferylliaeth, nid yw pob un ohonynt yn enwi'r un pynciau na pha raddau y mae angen i chi eu hennill: mae rhai yn gofyn am Fioleg a Chemeg, ond bydd rhai yn derbyn naill ai Bioleg **neu** Gemeg os oes gennych wyddor arall a thrydydd pwnc.

Bydd rhai ysgolion fferylliaeth yn aml yn derbyn trydydd cymhwyster Safon Uwch mewn unrhyw bwnc, ond bydd gan ysgolion eraill bynciau penodol sy'n well ganddyn nhw. Ni fydd llawer o ysgolion fferylliaeth yn derbyn Meddwl yn Feirniadol nac Astudiaethau Cyffredinol, ac efallai na fydd rhai yn derbyn rhai cyfuniadau o bynciau.

Bydd croeso yn aml i Fathemateg neu wyddor arall, ond gall Drama, Hanes, Saesneg, y Gyfraith, Cymraeg, Ffrangeg, Ystadegau, Economeg, Celf, Bagloriaeth Cymru a phynciau eraill eich helpu i ddod yn weithiwr proffesiynol cyflawn sy'n gallu cyfathrebu'n fedrus, sy'n hynod o bwysig i fferyllydd.

**Cofiwch wirio'r gofynion TGAU/Lefel 2 hefyd.**

**Wedi drysu?** Edrychwch ar UCAS, gwefan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a gwefannau'r ysgolion fferylliaeth y gallech ystyried gwneud cais iddynt cyn i chi benderfynu pa bynciau Safon Uwch i'w dewis.



# Allech chi wirfoddoli?

Os ydych chi'n rhy ifanc i gael lleoliad gwaith mewn fferyllfa, meddygfa neu ysbyty, gallech chi ystyried **gwirfoddoli** – efallai y gallech chi gynnig torri'r gwair neu fynd â'r ci am dro (yn ddiogel) i rywun hŷn sy'n cael trafferth gwneud hynny ei hun. Gwnewch hyn yn gyson, nid dim ond yn achlysurol, a defnyddiwch yr amser i fyfyrio ar sut fywyd y mae'r unigolyn hŷn hwn yn ei gael.

Ystyriwch a ydych chi'n mwynhau ei helpu ai peidio: mae gan fferyllwyr **empathi** (y gallu i 'gerdded yn esgidiau rhywun'), ac maen nhw'n cael **ymdeimlad o foddhad** pan maen nhw'n helpu pobl mewn angen heb fod eisiau dim byd yn ôl. Ydy hyn yn eich disgrifio chi?

Meddyliwch am sgiliau a phrofiadau newydd a sut y gallai'r rhain eich gwneud yn fferyllydd da a allai fod yn gweithio gyda phobl o bob cefndir rhyw ddydd. Efallai y byddai dechrau cadw dyddiadur yn syniad da er mwyn dod i'r arfer o fyfyrio ar eich diwrnod!













# Blwyddyn 12

**Profiad gwaith:** Mae'n bwysig eich bod yn deall sut beth yw bod yn fferyllydd a beth mae'r rôl yn ei olygu. Gallech wneud cais am swydd penwythnos mewn fferyllfa leol neu geisio sicrhau profiad gwaith i gael cipolwg ar y proffesiwn.

Gwnewch gais ar ddechrau Blwyddyn 12, trwy gysylltu â'ch fferyllfa, meddygfa, cartref gofal neu ysbyty lleol i ofyn am brofiad gwaith. Yn aml, bydd ganddynt restrau aros hir ar gyfer profiad gwaith felly gwnewch gais yn gynnar i osgoi colli allan. Os nad yw profiad gwaith yn bosibl yn bersonol, gallwch bob amser chwilio am gyfleoedd rhithwir yn lle hynny.


**Pethau eraill i'w hystyried:** Os na allwch chi gael profiad gwaith mewn fferyllfa, peidiwch â phoeni! Bydd llawer o fferyllwyr yn barod iawn i roi gwybodaeth i chi dros y ffôn. Hefyd, gallech geisio cysgodi fferyllydd i weld sut beth yw ei ddiwrnod arferol.

Meddyliwch am y ffordd rydych chi'n dysgu orau. Ydych chi'n hoff o fod yn ymarferol ac yn annibynnol wrth ddysgu, neu ydych chi'n hoff o ddysgu drwy theori? Ydych chi'n hoffi gweithio fel rhan o dîm?

**Trefnwch wirfoddoli:** Gallwch ystyried gwirfoddoli os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes. Canolbwyntiwch ar wirfoddoli sy'n cynnwys elfen o ofal, er enghraifft:

- grwpiau neu glybiau cefnogi cartrefi gofal ar gyfer plant sydd ag anableddau corfforol neu feddyliol
- cynlluniau chwarae
- grwpiau cefnogi a sesiynau gweithgareddau i oedolion e.e. pobl sydd â dementia neu MS
- sesiynau hyfforddi chwaraeon i blant
- tiwtora myfyrwyr TGAU
- mentora pobl ifanc.

Daliwch ati â'ch diddordebau allanol hefyd. Mae mwynhau cerddoriaeth, chwaraeon, drama neu gelf yn dangos eich bod yn unigolyn cyflawn (a gall hyn fod o help mawr i roi hwb i'ch lles meddyliol, sy'n bwysig).



Ceisiwch gymryd sylw o'r newyddion diweddaraf, a datblygiadau ym maes gwyddoniaeth a fferylliaeth. Darllenwch bapur ar-lein neu wefannau newyddion ag enw da. Archwiliwch wefannau gwyddonol a gwefannau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol.

Mae'n bosibl y bydd llawer o fyfyrwyr yn gwneud cais am nifer cyfyngedig o leoedd yn yr ysgolion fferylliaeth sydd o ddiddordeb i chi, felly gallai siarad am sut bydd eich gwirfoddoli, eich profiad gwaith neu'r meysydd sydd o ddiddordeb i chi yn eich helpu fel fferyllydd helpu i'ch gosod ar wahân i ymgeiswyr eraill.

**Gwnewch daenlen o ysgolion fferylliaeth:** Nodwch beth mae pob prifysgol ei eisiau gan ei myfyrwyr, beth sy'n gwneud i chi fod eisiau astudio yno, a beth sy'n eich poeni chi (os o gwbl). Canolbwyntiwch ar y rhai yr hoffech chi gael lle ynddynt.

A ydych chi'n dilyn y pynciau Safon Uwch cywir, neu a ddylech chi chwilio am ysgolion fferylliaeth sy'n cynnig blwyddyn sylfaen? Pa mor bwysig yw eich datganiad personol a'ch graddau disgwyliedig?

Cofiwch fod yn rhaid i chi fodloni gofynion sylfaenol ysgol fferylliaeth, neu bydd eich cais yn cael ei wrthod; mae gan ysgolion fferylliaeth gwahanol feini prawf sylfaenol gwahanol o ran graddau TGAU a materion eraill. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion fferylliaeth hefyd yn gofyn i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn ar eich diwrnod cyntaf.

**Cofiwch nodi'r cod UCAS ar gyfer pob cwrs.**

**Cyngor da:** Pan fyddwch chi'n mynd i ddiwrnodau agored neu ddigwyddiadau rhithwir prifysgol, ychwanegwch rai nodiadau at eich taenlen am yr hyn y mae pob ysgol yn ei flaenoriaethu, neu'r pethau allweddol a oedd yn ddiddorol i chi. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol pan fydd hi'n bryd i chi wneud cais.

Ewch ar daith canfod ffeithiau (a dilynwch eich greddf).

Gwnewch y mwyaf o gyfleoedd i ymweld ag ysgolion Fferylliaeth neu glywed gan staff a myfyrwyr yno, trwy weminarau ar-lein. Bydd hyn yn eich helpu i ddarganfod mwy am y ffordd y mae'r ysgolion hyn yn addysgu fferylliaeth, a beth yw barn myfyrwyr presennol am y rhaglen, yr ysgol a'r brifysgol yn ehangach.

Yn anad dim, ystyriwch sut rydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n ymweld ag ysgol fferylliaeth – a yw meddwl am astudio yno yn eich cyffroi chi?



**Byddwch yn chwilfrydig:** Cyn mynd i ddiwrnodau agored, meddyliwch am y math o gwestiynau yr hoffech eu gofyn i fyfyrwyr fferylliaeth, megis:

- Ble rydych chi'n mynd ar leoliad?
- Pryd "fyddwch chi'n dechrau trin cleifion?
- Beth yw'r agweddau mwyaf pleserus a mwyaf heriol ar y cwrs?
- Sut brofiad yw byw ac astudio yn y dref neu'r ddinas sy'n gartref i'r ysgol fferylliaeth?

## Cofiwch:

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar gael yn rhad ac am ddim: ewch i Ddiwrnodau Agored a Diwrnodau Blas ar Fferylliaeth, edrychwch ar wefan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (pharmacyregulation.org), darllenwch wefannau prifysgolion yn ofalus, a siaradwch â myfyrwyr fferylliaeth ar wefan The Student Room.

Po fwyaf o bobl y byddwch chi'n siarad â nhw, y mwyaf o safbwyntiau y cewch chi, a fydd yn eich helpu i bwyso a mesur eich opsiynau o ran ble yr hoffech astudio Fferylliaeth.

**Datganiad personol:** Bydd angen i chi ysgrifennu datganiad personol fel rhan o'ch cais i astudio fferylliaeth. Mae angen i'r datganiad hwn gwmpasu'r rhinweddau neu'r profiadau y mae eich ysgolion fferylliaeth o ddewis yn chwilio amdanynt yn eu myfyrwyr felly gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych yn ôl dros eu gofynion mynediad ac yn meddwl am yr hyn a ddywedont wrthych yn y diwrnod agored.

Peidiwch ag ysgrifennu am yr hyn rydych chi wedi'i wneud yn unig. Yn hytrach, esboniwch beth ddysgoch chi o'r profiadau hynny, gan gynnwys eich profiad gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli, a sut bydd hyn yn eich helpu i ddod yn weithiwr fferyllol proffesiynol ystyriol a pharchus.

**Trwy eich datganiad personol, gallwch:**

- ddangos eich angerdd am fferylliaeth a pham rydych chi eisiau bod yn fferyllydd
- dangos eich cymhelliant, ymrwymiad, sgiliau a phrofiad a fydd yn eich helpu i lwyddo yn eich astudiaethau ac fel fferyllydd

**Cyngor da:** Cadwch gopi o'ch datganiad personol – gall fod yn ddefnyddiol maes o law os cewch wahoddiad am gyfweliad.

# Blwyddyn 13

**Amser gwneud penderfyniad:** Mae mwyafrif helaeth y myfyrwyr yn gwneud cais i astudio Fferylliaeth trwy UCAS. Mae dyddiad cau ceisiadau UCAS yn amrywio ar gyfer gwahanol gyrsiau felly gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych ar wefan UCAS ac yn paratoi eich cais mewn da bryd. Fel arfer, mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i astudio Fferylliaeth ym mis Ionawr.

**Hoffech chi gymryd blwyddyn allan?** Mae rhai ysgolion fferylliaeth yn hapus i'w hymgeiswyr gymryd blwyddyn i ffwrdd, oherwydd byddwch yn dechrau astudio ar ôl cael blwyddyn yn ychwanegol o aeddfedrwydd a phrofiad bywyd. Os ydych am gymryd blwyddyn i ffwrdd, cofiwch ofyn am hynny pan fyddwch yn gwneud cais.

**A wyddoch chi?** Bydd y rhan fwyaf o ysgolion fferylliaeth eisiau eich cyfweld fel rhan o'r broses ymgeisio. Gweler **tudalen 14** am awgrymiadau a chyngor ar gyfer cyfweliadau!

**Gofynnwch am gyngor!** Os oes gennych chi bryderon am wneud cais i brifysgol, gofynnwch i'ch ysgol am gyngor.

**Unrhyw gwestiynau?** Gallwch ffonio neu anfon e-bost at y tîm derbyn yn yr ysgol Fferylliaeth neu brifysgol yr ydych yn ystyried gwneud cais iddi – byddant yn hapus i ateb eich cwestiynau.

**Ceisiadau:** Byddwch yn gwneud eich cais i astudio Fferylliaeth ar-lein, trwy UCAS. Cofiwch wneud cais yn gynnar, gan fod llawer i feddwl amdano a'i baratoi.

**A wyddoch chi?** Nid oes angen i chi gwblhau eich cais i gyd ar unwaith. Gallwch ei ddechrau a dod yn ôl ato yn nes ymlaen.

Bydd gan y rhan fwyaf o ysgolion fferylliaeth dîm derbyn neu diwtor derbyn a fydd yn edrych ar bob cais am y pethau canlynol:

- eich cymwysterau a/neu raddau disgwyliedig
- cynnwys eich datganiad personol (gweler **tudalen 11**)
- cynnwys eich geirda
- eich gallu i fynegi eich hun yn ysgrifenedig.



**Paratowch ar gyfer eich cyfweliad:** Mae ysgolion fferylliaeth eisiau i chi fwynhau eu rhaglen, llwyddo yn eich astudiaethau a ffynnu fel fferyllydd. Dyna pam maen nhw'n aml yn cyfweld ag ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol – maen nhw eisiau sicrhau mai dyma'r cwrs i chi mewn gwirionedd a bod gennych chi'r sgiliau a'r potensial i lwyddo.

Ar ben hynny, mae rheolydd annibynnol y proffesiwn fferyllol – y Cyngor Fferyllol Cyffredinol – wedi cyflwyno safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol i fferyllwyr ym Mhrydain Fawr. Yn rhan o'r safonau newydd hyn, mae ysgolion fferylliaeth yn gorfod archwilio ymddygiadau proffesiynol, gwerthoedd a sgiliau rhifedd sylfaenol ymgeiswyr cyn iddynt gael cynnig lle i astudio Fferylliaeth. Mae hyn yn golygu efallai y gofynnir i chi roi eich barn ar wahanol senarios lle mae fferyllwyr neu fyfyrwyr fferylliaeth yn rhyngweithio â chleifion. Gallwch drafod sut byddech yn ymateb mewn sefyllfa debyg. Peidiwch â phoeni, nid oes unrhyw atebion perffaith - mae'n gyfle da i gael eich barn ar y gwerthoedd a'r proffesiynoldeb sy'n rhan annatod o rôl fferyllydd.

Efallai y gofynnir i chi hefyd wneud rhai cyfrifiadau mathemateg sylfaenol yn rhan o'r broses gyfweld i wneud yn siŵr bod gennych lefel sylfaenol o rifedd. Unwaith eto, peidiwch â phoeni am hyn ac nid oes angen i chi adolygu ar gyfer gwneud y cyfrifiadau hyn.

**Cyngor da:** Os gofynnir i chi wneud rhai cyfrifiadau mathemateg sylfaenol, gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y cwestiynau'n gywir a gwiriwch eich atebion. Cofiwch y bydd eich cyfwelydd am i chi ymlacio a gwneud yn dda! Darllenwch ymlaen i gael rhagor o gyngor ar sut i baratoi ar gyfer eich cyfweliad.

**Dyddiad cau:** Ar ôl i chi wneud cais i wahanol brifysgolion, gwneud eich cyfweliadau a chael unrhyw gynigion, bydd angen i chi wneud penderfyniad am eich cynigion.

**Dim cynigion eleni?** Gallech ystyried ceisio dod o hyd i le i astudio fferylliaeth trwy Gadarnhau a Chlirio pan gewch chi'ch canlyniadau Safon Uwch (ond gall nifer y lleoedd fod yn brin iawn) neu ailymgeisio'r flwyddyn nesaf pan fyddwch yn gwybod pa ganlyniadau rydych wedi'u cyflawni. Efallai hefyd y bydd rhaglenni gradd eraill y gallech fwynhau eu hastudio, felly cymerwch amser i ystyried eich opsiynau.

## Unwaith eto, bydd gan UCAS ddyddiad cau i chi:

1. Wneud un cynnig yn ddewis cadarn i chi – mae hyn yn golygu eich bod yn derbyn y cynnig hwn fel eich dewis cyntaf.
2. Gwneud cynnig arall, os oes gennych gynnig arall, yn ddewis wrth gefn i chi – mae hyn yn golygu eich bod yn ei dderbyn fel cynnig wrth gefn os na chewch y graddau y mae eu hangen ar gyfer eich dewis cyntaf.
3. Gwrthod unrhyw gynigion eraill a gawsoch.

# Cynghorion Da ar gyfer Cyfweliadau:

Meddyliwch **pam rydych chi eisiau astudio fferylliaeth** a pham y byddwch chi'n fferyllydd da yn y dyfodol.

**Darllenwch drwy eich datganiad personol cyn eich cyfweliad –** mae'n debygol y gofynnir i chi siarad am rai o'r pethau rydych wedi sôn amdanynt yn eich datganiad, fel eich sgiliau a'ch profiad.

Cadwch lygad ar ffynonellau newyddion ag enw da am newyddion ymchwil a straeon cyfredol sy'n gysylltiedig â meddygaeth a fferylliaeth. Gall hyn eich helpu i **ddangos diddordeb brwd yn y maes hwn.**

**Meddyliwch am eich 'gwerthoedd'** a'r ffordd y gallai'r rhain ddylanwadu ar sut byddech chi'n ymateb i rai dilemâu cymdeithasol a meddygol. Er enghraifft, sut gallech chi fynd ati i drin claf sy'n gaeth i gyffuriau?

Ymgyfarwyddwch â Safonau Ymarfer Fferyllol y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) cyn eich cyfweliad. Ni chewch brawf ar y rhain ond, yn sicr, mae **dangos dealltwriaeth** o'r hyn a ddisgwylir gan Fferyllwyr a'r ffordd y maen nhw'n ymarfer yn fuddiol.

Yn ogystal ag edrych ar y wybodaeth ar wefan y CFfC, **porwch y wybodaeth ar wefan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol hefyd.** Mae hon yn ffynhonnell dda a dibynadwy o wybodaeth i bobl sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am yr opsiynau gyrfaol i fferyllwyr a'r gwahanol rolau y gall fferyllwyr eu cyflawni.

**Peidiwch â phoeni.** Mae pawb yn teimlo'n nerfus cyn cyfweliad ond mae hwn yn gyfle gwych i siarad amdanoch chi'ch hun, eich gwybodaeth am fferylliaeth ac i ddangos bod gennych chi agwedd dda tuag at ddysgu a datblygiad personol. Bydd y sawl sy'n eich cyfweld am i chi lwyddo!

**Ceisiwch fod yn chi eich hun a rhoi ateb dilys a gonest.** Nid profi eich gwybodaeth ffeithiol na barnu eich hoff a'ch cas bethau fydd y nod; diben ein cyfweliadau yw yn ein galluogi i ddod i'ch adnabod yn well a rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau a dangos i ni beth sydd o ddiddordeb i chi.

# Allwedd

**B230:** Mae gan bob gradd god UCAS. Mae'n bosibl y bydd gan ddau gwrs gradd godau gwahanol ond eu bod nhw'n debyg. Mae'n bosibl y bydd cyrsiau gradd eraill yn rhannu cod unfath, ond na fydd llawer yn gyffredin rhyngddyn nhw ar wahân i hynny. Gwiriwch y cod UCAS ddwywaith bob amser ar gyfer y cwrs rydych chi am wneud cais iddo.

**Blwyddyn sylfaen:** Mae ychydig o ysgolion fferylliaeth yn rhoi cyfle i fyfyrwyr sydd heb ddilyn pynciau Safon Uwch addas wneud cais i astudio fferylliaeth drwy flwyddyn sylfaen. Blwyddyn ychwanegol yw hon fel arfer, cyn Blwyddyn 1, lle bydd myfyrwyr yn dysgu'r wyddoniaeth na wnaethon nhw ei hastudio wrth ddilyn pynciau Safon Uwch.

**Blwyddyn Hyfforddiant Sylfaenol:** Peidiwch â chymysgu hon â'r flwyddyn sylfaen uchod, oherwydd dyma flwyddyn hyfforddiant y lleoliad gwaith â thâl y mae angen i holl raddedigion fferylliaeth ei chwblhau cyn y gallant sefyll asesiad i ddod yn fferyllydd cymwysedig.

**Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC):** Y corff rheoleiddio sy'n gosod y safonau ar gyfer eich gradd mewn fferylliaeth a'ch gyrfa fel fferyllydd.

**Isafswm Gofynion:** Dyma'r graddau, y sgiliau neu'r profiadau y mae ysgolion fferylliaeth am eu gweld yn eu hymgeiswyr. Byddant yn wahanol ar gyfer pob prifysgol, felly gwiriwch y rhain cyn i chi wneud cais er mwyn cynyddu eich siawns o gael cynnig.

**Cyfres o Gyfweliadau Byr (MMIS):** Mae'r math hwn o gyfweliad yn gadael i chi siarad un-i-un gyda llawer o wahanol gyfwelwyr, fel y gall yr ysgol fferylliaeth gael golwg deg a chytbwys ar eich cryfderau. Ni fydd pob ysgol fferylliaeth yn cynnal cyfresi o gyfweliadau byr, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal cyfweliadau ag un aelod o staff academaidd.

**Cyfweliadau Panel:** Arddull cyfweliad traddodiadol, lle y gall panel o ddau neu fwy o bobl eich cyfweld.

**UCAS:** Y wefan a ddefnyddiwch i wneud cais i astudio Fferylliaeth yn y brifysgol. Byddwch yn agor cyfrif UCAS ac yn ei ddefnyddio i dderbyn neu wrthod cynigion, a bydd ysgolion fferylliaeth yn defnyddio UCAS i gysylltu â chi.

**Remember...**

- Dewiswch eich pynciau Safon Uwch **yn ofalus**
- Trefnwch wirfoddoli sy'n cynnwys **elfen ofal** yn ddelfrydol
- Ymwelwch ag **ysgolion fferylliaeth** a darganfod cymaint ag y gallwch am y proffesiwn
- **Rhowch drefn ar eich dewisiadau** gyda thaenlen
- Mynnwch amser i **fwynhau hobïau**
- Rhowch gynnig ar **feddwl yn fyfyriol** gyda'ch teulu a'ch ffrindiau.

## Astudio Fferylliaeth ym Mhrifysgol Caerdydd MPharm (B230)

Ar ôl i chi wneud cais, bydd ein Tîm Derbyn yn asesu eich cais. Ar y tudalennau canlynol, byddwn yn dangos camau'r broses dderbyn i chi.

# Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi wneud cais i astudio Fferylliaeth ym Mhrifysgol Caerdydd?

## Hydref

- Mae dyddiad cau UCAS ar gyfer gwneud cais i ddilyn cyrsiau Fferylliaeth ym mis Ionawr.
- Ar ôl i chi wneud cais, byddwn yn gwirio a ydych yn bodloni isafswm y graddau gofynnol, yn adolygu eich datganiad personol ac yn darllen eich geirda.

## Hydref i Fai: cyfweliadau


- Os ydych yn bodloni'r gofynion mynediad ac mae eich cais yn awgrymu eich bod yn gweddu'n dda i'n cwrs, byddwn yn cysylltu â chi i'ch gwahodd am gyfweliad, a all gael ei gynnal wyneb yn wyneb neu ar-lein. (Nid yw bodloni isafswm y gofynion mynediad yn gwarantu y cewch gynnig cyfweliad).
- Byddwn yn dechrau cyfweld ag ymgeiswyr cyn gynted ag y byddwn yn derbyn ceisiadau, felly po gyntaf y byddwch yn gwneud cais, y cynharaf y byddwch yn clywed a ydych wedi cyrraedd y cam cyfweld ai peidio.
- Efallai y byddwch yn cael eich cyfweld gan fwy nag un person, ac efallai y bydd angen i chi ateb cwestiynau ar sail senarios a fydd yn helpu i archwilio eich gwerthoedd, eich sgiliau cyfathrebu a'ch dealltwriaeth. Efallai hefyd y gofynnir i chi arddangos eich sgiliau rhifedd.
- Gweler **tudalen 14** am gyngor ar gyfer cyfweliadau.

## Ebrill/Mai – gwirio UCAS am gynnig


- Byddwn yn gwneud cynigion i gyfweleion llwyddiannus trwy UCAS.
- Os na fyddwch yn llwyddiannus, gallwch ofyn am adborth gennym ar eich perfformiad yn y cyfweliad.

**A wyddoch chi?** Gallwch ein ffonio am gyngor ar Ddiwrnod y Canlyniadau Safon Uwch hefyd os na chawsoch gynnig gennym ond mae eich graddau yn well na'r disgwyl.

## Ymweld â ni





- Os oes gennych gynnig i astudio Fferylliaeth gyda ni, gallwch ymuno â ni am sesiwn (ddewisol) i Ddeiliaid Cynnig, lle y gallwch ddysgu mwy am y cwrs a sut brofiad yw astudio gyda ni. Byddwch hefyd yn gallu cael mynediad i ragor o wybodaeth am ein cwrs MPharm ar-lein ar caerdydd.ac.uk/fferylliaeth.
- Os ydych chi wedi clywed gan eich holl ddewisiadau, dylech chi ystyried cadarnhau eich dewis cyntaf trwy UCAS.



## Mehefin – a ydych wedi dewis y cwrs sy'n addas i chi?

- Mae'r dyddiad olaf i ddeiliaid cynnig gadarnhau mai ni yw eu dewis cyntaf, ein dewis ni fel dewis wrth gefn, neu wrthod ein cynnig ni, ym mis Mehefin.





## Awst – diwrnod canlyniadau Safon Uwch

- Os ydych chi'n bodloni gofynion ein cynnig, llongyfarchiadau! Byddwn yn dechrau anfon manylion atoch am yr hyn sy'n digwydd nesaf cyn i ni eich croesawu'n bersonol i ddechrau eich astudiaethau.
- Fel arall, os oes gennych chi gynnig gennym ond rydych wedi methu'r graddau y gofynnom amdanynt, mae Prifysgol Caerdydd weithiau'n gallu cynnig lle i chi ar gwrs arall, ond nid oes sicrwydd o hyn.
- Edrychwch ar ein gwefan caerdydd.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am gadarnhau a chlirio os nad ydych yn bodloni gofynion y cynnig.



## Medi

- Os gwnaethoch chi sicrhau eich graddau, croeso i'r Ysgol Fferylliaeth!
- Fel arall, os nad ydych yn dechrau yn y brifysgol eleni, mwynhewch eich blwyddyn i ffwrdd a chael hwyl wrth ehangu eich holl sgiliau trosglwyddadwy i'ch gwneud yn fferyllydd gwell fyth neu'n ymgeisydd cryfach ar gyfer cwrs arall.





# Fferylliaeth

YM MHRIFYSGOL

# Caerdydd

Y

# cylch Gwneud cais

**A WYDDOCH CHI?**

- Os byddwch yn gwneud cais i ni ond ni chewch gyfweliad na chynnig, byddwn yn falch o glywed gennych eto y flwyddyn nesaf, yn enwedig os cawsoch ganlyniadau Safon Uwch gwell na’r disgwyl.

**Eisiau gwybod rhagor? Ewch i www.caerdydd.ac.uk/fferylliaeth**

## cylch gwneud cais

1. Gwneud cais drwy UCAS: **Hydref i Ionawr** ar gyfer Fferylliaeth
2. Wedi bodloni meini prawf academaidd/anacademaidd? **Do/naddo**
3. Wedi’ch dewis ar gyfer cyfweliad? **Do/naddo**
4. Paratoi ar gyfer **cyfweliad**
5. Cyfweliad rhwng **Hydref a Mai**
6. Wedi cael cynnig lle? **Do/naddo**
7. Adborth ar **berfformiad yn y cyfweliad**
8. Ystyried **gwneud cais eto?**

# Nodiadau

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

# Pob Lwc

caerdydd.ac.uk/fferylliaeth